MEINI PRAWF CYMERADWYO AR GYFER CYMWYSTERAU TGAU

GORFFENNAF 2016

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Cynnwys	2
Pwrpas	2
Cynnwys Pwnc	2
Asesu	3
Cyflwyno Cymwysterau i'w Cymeradwyo	4
Teitlau	5
Dyfarnu	5
Cofnodi	5

Cyflwyniad

1. Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddiol** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol Interim: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddiol*[1].

2. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn, ynghyd â'r *Amodau Cydnabod Safonol Interim*[1], a'r meini prawf cymeradwyo pwnc, yn nodi'r gofynion ar gyfer pob manyleb TGAU newydd a gymeradwyir i'w dyfarnu o fis Medi 2017.

3. Lle bydd gofynion y meini prawf cymeradwyo pwnc yn wahanol i'r gofynion yn y ddogfen hon, gofynion y meini prawf cymeradwyo pwnc fydd yn cael blaenoriaeth.

[1] http://qualificationswales.org/regulation/monitoring-awarding-bodies/?lang=cy&

Cynnwys

Pwrpas

4. Rhaid i gymwysterau TGAU fodloni'r canlynol:

   4.1. darparu tystiolaeth o gyflawniad dysgwyr yn erbyn cynnwys heriol a pherthnasol;

   4.2. caniatáu i ddysgwyr ddatblygu sylfaen wybodaeth a sgiliau gadarn a fydd yn cefnogi astudio academaidd a galwedigaethol pellach, yn ogystal â chyflogaeth;

   4.3. paratoi dysgwyr mewn modd addas, er mwyn eu galluogi i fynd ymlaen i TAG, UG neu Safon Uwch yn yr un pwnc, neu bwnc cysylltiedig;

   4.4. lle y bo'n briodol, cefnogi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a asesir drwy Fagloriaeth Cymru.

Cynnwys Pwnc

5. Rhaid i bynciau TGAUau fodloni'r canlynol:

   5.1. cynnwys, lle y bo'n briodol, safbwynt Cymreig yn y cynnwys a/neu'r asesiad;

   5.2. darparu dilyniant addas o'r rhaglen astudio berthnasol yng Nghyfnod Allweddol 3;

   5.3. bod yn gymaradwy â chymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 eraill ledled y DU, ac adeiladu ar y rhaglen astudio berthnasol yng Nghyfnod Allweddol 3;

   5.4. ar gyfer manylebau cwrs byr, cynnwys tua hanner cynnwys dyfarniad sengl TGAU;

   5.5. ar gyfer manylebau dyfarniad dwbl, cael cynnwys sy'n cyfateb i ddau ddyfarniad TGAU sengl ar wahân.

Asesu

6. Rhaid i ddyluniad pob cymhwyster TGAU sicrhau'r canlynol:

   6.1. bod y lefel a gyrhaeddir yn adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddangosir yn yr asesiadau;

   6.2. gall dysgwyr gael mynediad i'r ystod lawn o raddau.

7. Rhaid i'r trefniadau asesu ar gyfer TGAU ond caniatáu haenu lle ceir rhesymeg amlwg dros wneud hynny, fel arfer yn gysylltiedig â natur y pwnc.

8. Rhaid i'r trefniadau asesu ar gyfer pob cymhwyster TGAU:

   8.1. lle y bo'n briodol, gynnwys cwestiynau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr lunio ymatebion ysgrifenedig estynedig a dangos ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnydd priodol o atalnodi a gramadeg;

   8.2. cael gofynion cymaradwy i bob ymgeisydd, gynnwys lle mae unedau asesu dewisol neu gwestiynau arholi dewisol;

   8.3. dim ond defnyddio asesiadau nas cynhelir drwy arholiad[2] os mai dyna yw'r dull mwyaf priodol o asesu cynnwys ac y caiff ei ganiatáu gan y meini prawf cymeradwyo pwnc.

9. Gall y trefniadau asesu ar gyfer TGAU fod yn llinol neu'n unedol fel y manylir yn y meini prawf cymeradwyo pwnc.

10. Rhaid i asesiadau TGAU llinol:

    10.1. sicrhau y caiff pob asesiad ei gynnal ar ddiwedd y cwrs;

    10.2. nodi'r berthynas rhwng yr amcanion asesu a'r cydrannau asesu;

    10.3. dangos y gyfran o farciau a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob cydran asesu;

    10.4. cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau a thasgau ar draws cydrannau asesu;

[2] Yn y ddogfen hon ac yn y meini prawf Cymeradwyo pwnc ar gyfer cymwysterau TGAU, rydym yn diffinio 'asesiad drwy arholiad' fel un:

a) wedi ei osod gan gorff dyfarnu,
b) wedi ei ddylunio i'w sefyll ar yr un pryd gan bob dysgwr ar amser a bennwyd gan y corff dyfarnu, ac
c) a gaiff ei sefyll dan amodau a bennwyd gan y corff dyfarnu (gan gynnwys amodau'n ymwneud â goruchwylio dysgwyr yn ystod yr asesiad, a gyda hyd yr asesiad).

Rydym yn cyfeirio at unrhyw fath o asesiad nad sydd yn cwrdd â'r diffiniad hwn fel 'asesiad nas cynhelir drwy arholiad'.

10.5. sicrhau bod unrhyw gydrannau neu gwestiynau asesu dewisol yn gymaradwy o ran gofynion i bob dysgwr.

11. Rhaid i asesiadau TGAU unedol:

11.1. sicrhau y caiff o leiaf 40% o'r asesiad ei gwblhau ar ddiwedd y cwrs;

11.2. nodi'r gydberthynas rhwng amcanion asesu a'r unedau asesu;

11.3. dangos y gyfran o farciau a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob uned asesu;

11.4. cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau a thasgau ar draws unedau,

11.5. sicrhau bod unrhyw unedau neu gwestiynau dewisol yn gymaradwy o ran gofynion i bob dysgwr;

11.6. sicrhau bod oes weithredol canlyniadau uned ond wedi'u cyfyngu gan oes weithredol y fanyleb.

11.7. Caniatáu ailsefyll uned asesu dim ond unwaith, gyda'r canlyniad gwell yn cyfrif tuag at y cymhwyster.

12. Rhaid i'r math gwestiynau ar draws yr asesiadau o fewn y cymhwyster TGAU roi'r cyfle i ymgeiswyr wneud y canlynol:

12.1. rhoi cymysgedd o ymatebion byr ac estynedig;

12.2. gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r pwnc, a dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ohonynt, ar draws cwrs astudio llawn y cymhwyster hwnnw.

13. Rhaid i gynlluniau marcio asesu:

13.1. sicrhau bod disgrifyddion yn ddigon gwrthrychol, yn fesuradwy ac yn dangos dilyniant clir ar draws gwahanol lefelau;

13.2. nodi sut mae'r marciau sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn neu dasg asesu yn gysylltiedig â'r amcan(ion) asesu.

<u>Cyflwyno cymwysterau i'w Cymeradwyo</u>

14. Wrth gyflwyno cymhwyster TGAU i Cymwysterau Cymru i'w Gymeradwyo, rhaid i gorff dyfarnu ddarparu dogfen fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftiol a dogfen esboniadol sy'n esbonio'r rhesymeg dros nodweddion allweddol o ddyluniad y cymhwyster arfaethedig (dogfen resymeg). Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r adolygiad cymhwyster a'r broses Gymeradwyo ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

15. Rhaid i'r ddogfen resymeg gynnwys esboniad ar gyfer:

15.1. strwythur y cymhwyster, gan esbonio'r rhesymau dros y ffordd y cafodd y cynnwys ei strwythuro;

15.2. cynnwys y cymhwyster (lle na nodir hyn yn y ddogfen meini prawf cymeradwyo); er enghraifft, lle bydd pynciau, testunau neu awduron penodol wedi'u cynnwys, eglurhad o'r ffordd y cafodd y rhain eu dewis a pham;

15.3. sut y cafodd y gofyniad am safbwynt Cymreig ei fodloni a sut mae'r dull gweithredu yn briodol i'r pwnc;

15.4. y strwythur asesu, gan gynnwys nifer, pwysoliad, dyraniad marciau a hyd unedau / cydrannau asesu;

15.5. sut y pennwyd gwasgariad amcanion asesu ar draws y cwestiynau asesu ac oddi mewn iddynt;

15.6. dyluniad deunyddiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math o dasgau asesu a'r amrywiaeth ohonynt sydd wedi'u cynnwys ymhob elfen a'u perthynas â'r amcanion asesu;

15.7. dyluniad cynlluniau marcio a sut y cânt eu cymhwyso.

Teitlau

16. Rhaid i deitlau cwrs TGAU wneud y canlynol:

16.1. defnyddio'r gair ‘TGAU’ ar gyfer TGAU dyfarniad sengl;

16.2. defnyddio'r gair ‘TGAU (cwrs byr)’ os yw'n seiliedig ar fanyleb cwrs byr;

16.3. defnyddio'r gair ‘TGAU (dyfarniad dwbl)’ os yw'n cyfateb i ddau gwrs TGAU ar wahân;

Dyfarnu

17. Os caiff cwrs byr TGAU ei ddyfarnu, ni ellir defnyddio hwn tuag at ddyfarnu cwrs llawn TGAU.

Cofnodi

18. Rhaid bod trefniadau ar gyfer graddio TGAU a'u cofnodi i sicrhau:

18.1. y caiff cyrhaeddiad sy'n ddigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif ar lefel TGAU ei gofnodi ar raddfa wyth gradd o A* i G, lle mae A* yw'r uchaf;

18.2. y caiff cyrhaeddiad sy'n annigonol i arwain at ddyfarnu tystysgrif ar lefel TGAU ei gofnodi fel Annosbarthedig (Unclassified) neu U;

18.3. caiff y radd ar gyfer TGAU dyfarniad dwbl ei chofnodi ar ffurf A*A*, A*A, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE, EF, FF, FG, GG;

18.4. bydd nodiadau esboniadol yn cael eu cynnwys gyda graddau ar dystysgrifau cwrs byr a dyfarniad dwbl TGAU ar natur y mathau hyn o TGAU.

Rhagor o wybodaeth Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

enquiries@cymwysteraucymru.org